***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 664 (Cy.77)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 128 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 128(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Morgannwg ("*the University of Glamorgan Higher Education Corporation*")(**3**), sef corff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol o fewn ystyr adran 128(1)(b)(ii) o'r Ddeddf honno, wedi cydsynio i eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd ("*University of Wales, Newport Higher Education Corporation*")(**4**) gael eu trosglwyddo iddi.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd ac â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unol ag adran 128(4) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd (Diddymu) 2013 a daw i rym ar 11 Ebrill 2013.

---

(**1**) 1988 p.40. Diwygiwyd adran 128 gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 34; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 16; Deddf Addysg 2011 (p.21), adran 67 ac Atodlen 16, paragraff 8; Deddf Elusennau 2011 (p.25), Atodlen 7, paragraff 51; Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238) (Cy.243), Atodlen 1, paragraff 12 a Gorchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/1080), paragraffau 15 ac 16.

(**2**) Trosglwddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 128, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) Sefydlwyd fel corfforaeth addysg uwch o dan adran 122(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhinwedd O.S. 1991/1976.

(**4**) Sefydlwyd fel corfforaeth addysg uwch o dan adran 122(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn rhinwedd O.S. 1991/1976.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Corfforaeth Casnewydd" ("*the Newport Corporation*") yw Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd;

ystyr "Prifysgol Morgannwg" ("*University of Glamorgan*") yw Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Morgannwg.

**Diddymu Prifysgol Cymru, Casnewydd**

**3.** Ar 1 Ebrill 2013 mae Corfforaeth Casnewydd wedi ei diddymu ac mae ei holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau wedi eu trosglwyddo i Brifysgol Morgannwg.

**4.** Mae adran 127 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 yn gymwys i unrhyw berson a gyflogwyd gan Gorfforaeth Casnewydd yn union cyn 1 Ebrill 2013 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogwyd felly;

(b) at y dyddiad trosglwyddo yn gyfeiriadau at 1 Ebrill 2013;

(c) at yr awdurdod sy'n trosglwyddo yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Casnewydd;

(d) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Brifysgol Morgannwg.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

19 Mawrth 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg uwch a sefydlwyd i redeg Prifysgol Cymru, Casnewydd ("Prifysgol Casnewydd"). Sefydlwyd Prifysgol Casnewydd fel corfforaeth addysg uwch o'r enw Coleg Addysg Uwch Gwent o dan adran 122 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 a newidodd ei henw i Goleg Prifysgol Cymru, Casnewydd ac wedi hynny i Brifysgol Cymru, Casnewydd gyda chydsyniad y Cyfrin Gyngor.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i'r holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd gan Brifysgol Casnewydd hawlogaeth iddynt neu yr oedd yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn ei diddymu, gael eu trosglwyddo i Gorfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Morgannwg ("Prifysgol Morgannwg").

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth i adran 127 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 fod yn gymwys mewn perthynas â phersonau a gyflogwyd gan Brifysgol Casnewydd yn union cyn 1 Ebrill 2013. Mae adran 127 o Ddeddf 1988, fel y'i cymhwysir gan y Gorchymyn hwn, yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r cyflogeion hynny i Brifysgol Morgannwg ar 1 Ebrill 2013 ac mewn cysylltiad â hawliau a dyletswyddau cysylltiedig Prifysgol Morgannwg a'r cyflogeion a drosglwyddir.

Ymgorfforwyd Prifysgol Morgannwg fel corfforaeth addysg uwch o'r enw Polytechnig Cymru ym 1982 a newidodd ei henw gyda chydsyniad y Cyfrin Gyngor.